# Ailgylchu – Ffasiynol iawn!

Casglwch ddillad a thecstilau nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio.

Defnyddiwch wahanol rannau o'r dillad a'r tecstilau i ail-greu rhyw arteffact i addurno eich ystafell wely.



**Clustog**



**Cwdyn tecstiliau i ddal potel ddŵr poeth**



**Bag i ddal dillad nos**



**Blanced o ddarnau defnydd**



**Mat bwrdd**

# Ailgylchu Tecstilau

## Syniadau

- Newid pwrpas dilledyn - troi pâr o jîns yn fag neu'n glustog
- Addasu dilledyn - newid yr hyd, y llewys neu'r botymau
- Creu addurniadau - blodau o hen ddillad gwlân neu ffelt
- Ychwanegu addurniadau - botymau, secwins, darnau o ffabrig
- Gwnïo a gwehyddu ffabrigau gwahanol at ei gilydd

# Enghreifftiau



# I ble mae'r dillad sy'n rhy fach i ni yn mynd?



**Ailgylchu dillad**: https://www.youtube.com/watch?v=Pz1055aHwsk

# Ailddefnyddio

Dydy plastig ddim yn pydru!

Er mwyn ailgylchu poteli pop 2 litr rydym eisiau adeiladu tŷ gwydr cynaliadwy.

Byddwn yn cynllunio'r adeiledd - y waliau, y to a'r drws ac yn adeiladu'r fframwaith o bren.

Byddwn yn defnyddio'r poteli plastig i greu'r waliau.

Bydd y tŷ gwydr yn cael ei ddefnyddio yn ein hysgol!

# Ailddefnyddio







# Ailddefnyddio







# Hefyd, gallwch ddefnyddio poteli plastig i greu bwyty i'r adar.







# Nadolig Llawen! O Goeden Hardd!

Beth am ddylunio a gwneud coeden Nadolig drwy ailddefnyddio defnyddiau gwahanol?

Beth am ddylunio a gwneud coeden Nadolig o ddefnyddiau sydd wedi'u hailgylchu?

Dyma rai syniadau!







# Pa ddefnyddiau sydd wedi cael eu hailgylchu i wneud yr addurniadau Nadolig yma?













# Beth allwn ni ei wneud gyda thuniau alwminiwm?



Gallwch fynd ati i greu stilts ar gyfer plant bach y Cyfnod Sylfaen.





Neu beth am greu bocsys i storio pensiliau dosbarth?

Beth sy'n digwydd i'r tuniau alwminiwm, y poteli plastig a'r holl bethau eraill sydd yn y bin ailgylchu?



**Bois y Bins**: https://www.youtube.com/watch?v=k0n0Tzm1dT0

Mae cymaint o bethau y gallwch chi eu gwneud i wella'r iard gan ailddefnyddio teiars. Beth am roi cynnig ar rai o'r syniadau yma ar gyfer eich ysgol chi?












Mae ailgylchu'n gymaint o hwyl!
Rhowch gynnig arni!